# Plant a Phobl Ifanc: Eu barn ar dlodi

Bob blwyddyn yn Plant yng Nghymru, rydyn ni'n holi plant a phobl ifanc yng Nghymru am dlodi. Maen nhw'n rhoi eu barn ar dlodi i ni ac yn dweud wrthyn ni beth maen nhw'n ei feddwl.

Dyma beth ddwedson nhw eleni (2021):

## Tlodi ac arian

Fe ofynnon ni beth sy'n effeithio fwyaf ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi. Fe ddywedson nhw:

1. **Bod heb ddigon o arian i dalu am fwyd, gwres a thrydan**
2. **Pryderu am arian drwy'r amser**
3. **Bod mewn dyled**

Fe ddywedson nhw hefyd fod bwlio'n effeithio ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi, a'u bod nhw'n teimlo o dan straen ac yn bryderus. Fe ddywedson nhw:







Gallwch chi ddarllen yr adroddiad llawn yma Plant yng Nghymru.

Efallai bydd rhai plant a phobl ifanc yn cael eu hypsetio neu'n pryderu am rai o'r pethau hyn. Os byddwch chi'n teimlo hynny, gallwch chi wastod siarad â rhywun am y peth. Gallwch chi gysylltu â MEIC, sydd ar gael am ddim, a does dim rhaid i chi roi eich enw 080880 23456.

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHYWDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Plant a Phobl Ifanc: Eu barn ar dlodi

**Bob blwyddyn yn Plant yng Nghymru, rydyn ni'n holi plant a phobl ifanc yng Nghymru am dlodi. Maen nhw'n rhoi eu barn ar dlodi i ni ac yn dweud wrthyn ni beth maen nhw'n ei feddwl.**

**Dyma beth ddwedson nhw eleni (2021):**


## Tlodi a'r ysgol

**Fe ofynnon ni beth sy'n effeithio fwyaf ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi pan fyddan nhw yn yr ysgol. Fe ddywedson nhw:**

1. **Cael eu bwlio neu bod pobl yn edrych lawr arnyn nhw**
2. **Bod heb ddigon o arian i fynd ar dripiau ysgol**
3. **Bod heb ddigon o arian i brynu'r wisg ysgol gywir**

**Soniodd bron yr holl blant a phobl ifanc am gael eu bwlio oherwydd tlodi. Fe ddywedson nhw fod plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan yn yr ysgol. Gallen nhw deimlo tristwch neu embaras, ac maen nhw heb hyder na hunan-barch.**

*""Rwyt ti'n teimlo'n israddol"*
*(14-16 oed)*



*"Rwy'n credu bod tlodi'n effeithio ar bobl ifanc yn yr ysgol oherwydd gallen nhw gael eu bwlio oherwydd gwisg ysgol ail-law neu ginio bach"*
*(10-13 oed)*



Gallwch chi ddarllen yr adroddiad llawn yma Plant yng Nghymru.

Efallai bydd rhai plant a phobl ifanc yn cael eu hypsetio neu'n pryderu am rai o'r pethau hyn. Os byddwch chi'n teimlo hynny, gallwch chi wastod siarad â rhywun am y peth. Gallwch chi gysylltu â MEIC, sydd ar gael am ddim, a does dim rhaid i chi roi eich enw 080880 23456.

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHYWDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Plant a Phobl Ifanc: Eu barn ar dlodi

Bob blwyddyn yn Plant yng Nghymru, rydyn ni'n holi plant a phobl ifanc yng Nghymru am dlodi. Maen nhw'n rhoi eu barn ar dlodi i ni ac yn dweud wrthyn ni beth maen nhw'n ei feddwl.

Dyma beth ddwedson nhw eleni (2021):

## Tlodi a'r cartref

Fe ofynnon ni beth sy'n effeithio fwyaf ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi pan fyddan nhw gartref. Fe ddywedson nhw:

1. **Byw mewn cartref oer, llaith**
2. **Pryderu bod ganddyn nhw ddim digon o arian i aros lle maen nhw'n byw**
3. **Methu gofyn i ffrindiau alw heibio oherwydd eu bod nhw'n teimlo embaras**

Dywedodd y plant a'r bobl ifanc fod y cartref yn bwysig iawn, ond ei fod yn gwneud iddyn nhw bryderu weithiau. Fe ddywedson nhw:

*"Mae rhieni dan straen ac wedi ypsetio ac mae'n golygu bod pawb yn y tŷ yn drist"*
*(O dan 10)*

*"Mae gennym ni lai o arian nag erioed o'r blaen. Mae Mam yn poeni am arian drwy'r amser, yn enwedig y dyn dyledion yn galw. Mae hi'n edrych yn ofnus iawn ac yn llefain wedyn."*
*(14-16 oed)*





*Bod yn unig ac yn isel"*
*(10-13 oed)*



Gallwch chi ddarllen yr adroddiad llawn yma Plant yng Nghymru.

Efallai bydd rhai plant a phobl ifanc yn cael eu hypsetio neu'n pryderu am rai o'r pethau hyn. Os byddwch chi'n teimlo hynny, gallwch chi wastod siarad â rhywun am y peth. Gallwch chi gysylltu â MEIC, sydd ar gael am ddim, a does dim rhaid i chi roi eich enw 080880 23456.

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHYWDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Plant a Phobl Ifanc: Eu barn ar dlodi

**Bob blwyddyn yn Plant yng Nghymru, rydyn ni'n holi plant a phobl ifanc yng Nghymru am dlodi. Maen nhw'n rhoi eu barn ar dlodi i ni ac yn dweud wrthyn ni beth maen nhw'n ei feddwl.**

**Dyma beth ddwedson nhw eleni (2021):**

## Tlodi a'r gymuned

**Fe ofynnon ni beth sy'n effeithio fwyaf ar blant a phobl ifanc sy'n byw mewn tlodi pan fyddan nhw yn eu cymuned. Fe ddywedson nhw:**

1. **Byw yn rhywle lle dydyn nhw ddim yn teimlo'n ddiogel yn mynd allan**
2. **Bod heb drafnidiaeth i fynd o gwmpas**
3. **Bod heb ddigon o arian ar gyfer trafnidiaeth**

**Dywedodd y plant a'r bobl ifanc fod y rhai oedd yn byw mewn tlodi yn cael eu bwlio yn eu cymuned. Fe ddywedson nhw y bydden nhw'n cael eu bwlio oherwydd ble roedden nhw'n byw ac y byddai pobl yn edrych lawr arnyn nhw. Fe ddywedson nhw hefyd:**

*"Methu mynd allan gyda ffrindiau achos bod gen i ddim arian i gael bwyd na dim, ac os bydd arian, teimlo'n wael am ei wario"* *(14-16 oed)*

*"Mae pawb yn fy nghymuned i yn dlawd. Yn y dre, rwy'n teimlo bod pawb yn edrych lawr arnon ni"* *(14-16 oed)*

*"Does dim tâl am fynd i'm clwb ieuenctid nawr, ond alla i ddim ymuno achos does gen i ddim arian gwario"* *(14-16 oed)*





Gallwch chi ddarllen yr adroddiad llawn yma [Plant yng Nghymru.]

Efallai bydd rhai plant a phobl ifanc yn cael eu hypsetio neu'n pryderu am rai o'r pethau hyn. Os byddwch chi'n teimlo hynny, gallwch chi wastod siarad â rhywun am y peth. Gallwch chi gysylltu â MEIC, sydd ar gael am ddim, a does dim rhaid i chi roi eich enw 080880 23456.

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHYWDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Plant a Phobl Ifanc: Eu barn ar dlodi

**Bob blwyddyn yn Plant yng Nghymru, rydyn ni'n holi plant a phobl ifanc yng Nghymru am dlodi. Maen nhw'n rhoi eu barn ar dlodi i ni ac yn dweud wrthyn ni beth maen nhw'n ei feddwl.**

**Dyma beth ddwedson nhw eleni (2021):**

## Mae fy llais i'n bwysig

**Fe ofynnon ni i blant a phobl ifanc ddweud unrhyw beth roedden nhw eisiau am dlodi. Dyma rai o'u sylwadau:**

*"Mae'n drist iawn, mae angen i fi helpu nhw. Rydw i eisiau gallu defnyddio beth sydd gen i, neu mae rhaid i'r ysgol helpu nhw"*
*(14-16 oed)*

*"Mae plant mewn tlodi jyst eisiau bod yn gyfartal â phawb arall"*
*(O dan 10)*

*"Mae tlodi'n effeithio ar bob agwedd ar eu bywydau"*
*(10-13 oed)*

*"Ddylai neb fod yn byw mewn tlodi"*
*(10-13 oed)*

*"Cael effaith aruthrol ar ein hiechyd meddwl. Mae'n gas gen i fod yn dlawd"*
*(O dan 10)*

*Stopiwch farnu'r rhai sy'n gwneud eu gorau i ymdopi gyda braidd dim arian dros ben. Rhowch brydau ysgol am ddim i bawb ohonon ni"*
*(10-13 oed)*



Gallwch chi ddarllen yr adroddiad llawn yma Plant yng Nghymru.

Efallai bydd rhai plant a phobl ifanc yn cael eu hypsetio neu'n pryderu am rai o'r pethau hyn. Os byddwch chi'n teimlo hynny, gallwch chi wastod siarad â rhywun am y peth. Gallwch chi gysylltu â MEIC, sydd ar gael am ddim, a does dim rhaid i chi roi eich enw 080880 23456.

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHYWDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# Plant a Phobl Ifanc: Eu barn ar dlodi

**Bob blwyddyn yn Plant yng Nghymru, rydyn ni'n holi plant a phobl ifanc yng Nghymru am dlodi. Maen nhw'n rhoi eu barn ar dlodi i ni ac yn dweud wrthyn ni beth maen nhw'n ei feddwl.**

**Dyma beth ddwedson nhw eleni (2021):**

# Tasen i'n rhedeg pethau....

**Fe ofynnon ni gwestiwn mawr iawn i'r plant a'r bobl ifanc. Tasen nhw â chyfrifoldeb am y sefyllfa, beth fydden nhw'n ei wneud i atal tlodi rhag digwydd. Dyma rai o'u sylwadau:**

*"Darparu deunydd ysgrifennu i'w roi i bobl sydd angen hynny i fwy o ysgolion, cinio am ddim mewn ysgolion a cholegau, a dysgu plant am dlodi fel bod nhw'n gallu helpu"*
*(14-16 oed)*

*"Meddwl sut i helpu pobl mewn angen heb wneud iddyn nhw deimlo'n dlawd. Mae bod ag angen help yn teimlo'n gywilyddus, hyd yn oed os nad yw pobl yn bwriadu hynny"*
*(14-16 oed)*

*"Prydau a thripiau ysgol am ddim i bawb"*
*(O dan 10)*

*"Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o'm ffrindiau'n cael prydau ysgol am ddim, ond dwyf fi a'm dwy chwaer ddim, sydd ddim yn deg, a dwy ddim yn deall pam. Dylai pawb gael eu talu'n deg yn y lle cyntaf. Dwy ddim yn gwybod sut gallwch chi wneud hynny. Rydw i'n 16 ac rwyf fi bob amser wedi bod yn dlawd, mor hir ag y galla i gofio. Mae'r dyn gafodd ei ethol yn ymddangos yn foi ffein, ond wn i ddim fydd e'n gwneud unrhyw beth am y sefyllfa."*
*(16 oed)*

*"Prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r haf"*
*(O dan 10)*



Gallwch chi ddarllen yr adroddiad llawn yma Plant yng Nghymru.

Efallai bydd rhai plant a phobl ifanc yn cael eu hypsetio neu'n pryderu am rai o'r pethau hyn. Os byddwch chi'n teimlo hynny, gallwch chi wastod siarad â rhywun am y peth. Gallwch chi gysylltu â MEIC, sydd ar gael am ddim, a does dim rhaid i chi roi eich enw 080880 23456.

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHYWDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES